## PWYLLGOR ARCHWILIO:

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD 05-01 – CYFLWYNWYD I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR 6fed MEDI 2001 YN UNOL AG ADRAN 102(1) DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 1998

***CYFRIF ADNODDAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER 1999-2000 AC ADRODDIAD CYFFREDINOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ARCHWILIAD ARIANNOL O GYFRIFON 1999-2000***

| **CYNNWYS** | **Paragraff** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cyfrif Adnoddau 1999-2000 y Cynulliad | 5 |
| Datblygiadau yn y Dyfodol mewn perthynas â Chyfrifo a Chyllidebu Adnoddau | 15 |
| Materion yn Codi o Waith Archwilio Ariannol 1999-2000 yr Archwilydd Cyffredinol | 25 |
| Llywodraethu Corfforaethol yn y Cyrff a Archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol | 30 |
| Prif Gasgliadau ac Argymhellion | 41 |
| Crynodeb o'r Casgliadau | 42 |

**ATODIADAU**

Atodiad A: Trafodion y Pwyllgor - Cofnodion Tystiolaeth (Dydd Iau 29 Mawrth 2001)

Atodiad B: Y Pwyllgor Archwilio

## CYFLWYNIAD

1. O dan Adran 97 Deddf Llywodraeth Leol 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynhyrchu cyfrifon blynyddol ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys. Disgwylir i'r Ysgrifennydd Parhaol, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad, gyflwyno'r cyfrif llofnodedig i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 30 Tachwedd yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Disgwylir i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio ac ardystio'r cyfrif, ac adrodd i'r Cynulliad ar ganlyniadau ei archwiliad. Roedd y cyfrifon cyntaf o'r fath yn cwmpasu'r cyfnod 7 Mai 1999 (y dyddiad y daeth y Cynulliad i fodolaeth) i 31 Mawrth 2000. Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon hyn yn Ionawr 2001[1].

2. Ym Mawrth 2001, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Cyffredinol ar gyfer 1999-2000 a oedd yn crynhoi canlyniadau ei waith archwilio ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfrifo dan sylw[2]. Roedd yr Adroddiad Cyffredinol hefyd yn edrych ar ystod o faterion cysylltiedig, yn cynnwys datblygiadau ym maes cyllidebu a chyfrifo adnoddau a mater llywodraethu corfforaethol. Roedd yn cynnwys yr holl gyrff y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio eu cyfrifon.

3. Derbyniom dystiolaeth gan Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, a chan Mr David Richards a Mr Laurie Pavelin o Grwp Cyllid y Cynulliad ar sail y ddau adroddiad hwn. Rydym yn ddiolchgar i'r tystion am eu help a'u hymateb cadarnhaol i'n cwestiynau. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pedwar prif fater a ddaeth i'r amlwg o'n harchwiliad.:

   - cyfrif adnoddau 1999-2000 y Cynulliad;
   - datblygiadau i'r dyfodol o ran cyfrifo a chyllidebu adnoddau;
   - materion yn codi o waith archwilio ariannol 1999-2000 yr Archwilydd Cyffredinol; a
   - llywodraethu corfforaethol yn y cyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

---

[1] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 30 Ionawr 2001.
[2] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 22 Mawrth 2001.

4. Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan ein canfyddiadau a'n casgliadau o dan bob un o'r penawdau hyn, ynghyd â nifer o argymhellion y bwriadwyd iddynt helpu'r Cynulliad i fwrw ymlaen â'r datblygiadau allweddol o ran cyfrifo a llywodraethu corfforaethol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## CYFRIF ADNODDAU 1999-2000 Y CYNULLIAD

*Cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio*

5. Tan 1998-99, adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys y Swyddfa Gymreig gynt, oedd yn gyfrifol am baratoi cyfrifon dyraniadau, a gynlluniwyd yn syml i ddangos y cyfansymiau a dalwyd ac a dderbyniwyd o'u cymharu â'r Amcangyfrif o'r Cyflenwad a bleidleisiwyd gan Dy'r Cyffredin. Roedd nifer o ddiffygion yn y cyfrifon hyn. Er enghraifft, nid oeddynt yn cynnwys y mantolenni yn dangos gwerth asedion a rhwymedigaethau adrannau ar ddiwedd blwyddyn. Nid oeddynt chwaith yn cynnwys gwybodaeth ar symiau oedd yn ddyledus i'r adran neu gan yr adran.[3]

6. O flwyddyn gyfrifo 1999-2000, cyfarwyddodd y Trysorlys y dylai adrannau llywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi cyfrifon adnoddau. Caiff y cyfrifon hyn, sy'n cynnwys mantolenni, eu paratoi ar sail croniadau yn hytrach nag ar sail ariannol. Fe'u cynlluniwyd i ddangos darlun gwir a theg o gost net adnoddau a ddefnyddir gan gorff yn ystod blwyddyn benodol yn hytrach na'r trafodion ariannol yn unig.[4] Dylai cyfrifon o'r fath alluogi eu defnyddwyr a'u darllenwyr i gael gwybodaeth ariannol fwy ystyrlon sy'n well adlewyrchiad o weithgareddau busnes y cyrff dan sylw.

7. Wrth baratoi i gyflwyno cyfrifo adnoddau, cynhyrchwyd cyfrifon adnoddau "prawf" ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 1998-1999 gan adrannau llywodraeth y DU. Archwiliwyd y cyfrifon hyn ond ni chawsant eu cyhoeddi. Yn ystod 1999-2000, cynhyrchwyd cyfrif o'r fath ar gyfer y Swyddfa Gymreig gynt gan Grwp Cyllid y Cynulliad, ac archwiliwyd y cyfrif hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cafodd canlyniadau'r archwiliad hwn eu crynhoi yn Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 1998-99 ac fe'u hystyriwyd gan y

---

[3] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 3.
[4] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 4.

Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2000.[5] Cyhoeddwyd ein hadroddiad ni ar ôl hyn ar 23 Awst 2000.[6] Paratowyd cyfrif hefyd ar gyfer y Swyddfa Gymreig gynt gan y Grwp Cyllid ar gyfer y tri mis cyn trosglwyddo swyddogaethau o'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Cyhoeddwyd y cyfrif hwn ar 11 Gorffennaf 2000[7].

8. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrif adnoddau'r Cynulliad ar gyfer 1999-2000.[8] Ystyriwn hyn yn gryn gamp gan staff y Cynulliad a oedd wedi gorfod ymdopi â chyflwyno'r system cyfrifo adnoddau law yn llaw â'r newid drosodd i ddatganoli. O'r 49 o gyfrifon adnoddau a baratowyd ar gyfer adrannau llywodraeth y DU, nodwn hefyd fod 10 wedi methu â chadw at ddyddiad terfyn y Trysorlys ar gyfer eu cyhoeddi, a bod pedwar o'r cyfrifon a gyflwynwyd o fewn y terfynau amser wedi derbyn barn archwilio amodol.[9]

9. Fodd bynnag, rydym yn bryderus fod y Grwp Cyllid wedi wynebu nifer o anawsterau wrth baratoi'r cyfrif ar gyfer ei archwilio, fel a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Cyflwynwyd cyfrif i'w archwilio i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru tua deufis a hanner ar ôl y dyddiad terfyn y cytunwyd arno a bu'n rhaid ei ddiwygio'n sylweddol mewn sawl man cyn ei arwyddo. Mae'n amlwg i'r baich anochel o newid drosodd i ddatganoli gyfrannu at yr oedi ond ffactor allweddol yn yr oedi oedd fod y Grwp Cyllid wedi dioddef prinder parhaus o staff profiadol wedi'u cymhwyso'n addas. Hefyd, profodd y Grwp Cyllid rai anawsterau mewnol yn cael gwybodaeth gyfrifo hanfodol gan rai is-adrannau llinell.[10]

10. Rydym o'r farn y gallai'r Grwp Cyllid fod wedi rhagweld a rheoli rhai o'r problemau a wynebwyd ganddo yn well wrth baratoi cyfrifon 1999-2000. Er enghraifft, roedd dyddiad trosglwyddo swyddogaethau yn wybyddys ers amser a gellid fod wedi cymryd camau mwy effeithiol i fynd i'r afael â goblygiadau staffio tebygol y broses gyfrifo. Rydym felly'n croesawu'r sicrwydd a gawsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod trefniadau bellach yn eu lle, yn cynnwys darparu digon

---

[5] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) *Archwiliad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Mawrth 2000.

[6] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Awst 2000.

[7] Cyfrifon Adnoddau Adrannol y Swyddfa Gymreig am y cyfnod 1 Ebrill 1999 i 30 Mehefin 1999, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 11 Gorffennaf 2000.

[8] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 25.

[9] C56

o staff cymwys a phrofiadol, fel bod modd cynhyrchu cyfrifon 2000-01 i safon dda ac yn unol â'r amserlen archwilio y cytunwyd arni.[11] Rydym hefyd wedi ein calonogi o wybod fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn bwriadu cymryd mwy o rôl bersonol wrth fonitro'r gwaith o baratoi'r cyfrifon[12]. Disgwyliwn iddo sicrhau bod adnoddau addas a digonol ar gael i gyflawni'r dasg hynod bwysig hon.

11. Rydym hefyd yn falch o wybod fod gan y Grwp Cyllid bellach well cysylltiadau yn eu lle gyda holl is-adrannau allweddol y Cynulliad a bod yr is-adrannau hyn yn deall yn union pa wybodaeth y disgwylir ganddynt wrth baratoi'r cyfrifon blynyddol.[13] Nodwn fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi siarad â'r holl gyfarwyddwyr grwp er mwyn pwysleisio pwysigrwydd darparu'r wybodaeth a ddisgwylir i'r Grwp Cyllid ar amser a'i fod wedi gofyn am gael gwybod os cyflwynir unrhyw wybodaeth yn hwyr. Nodwn hefyd fod staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.[14]

*Methiant i gynnal cysoniadau banc*

12. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi methiant y Grwp Cyllid i gysoni cofnodion cyfrifon y Cynulliad â'r datganiadau banc misol o fis Gorffennaf 1999 i fis Medi 2000, a gyfrannodd hefyd at yr oedi wrth gynhyrchu'r cyfrif.[15] Mae'r cysoni hwn gyda data annibynnol yn ddull rheoli cyfrifo sylfaenol a hanfodol dros gywirdeb y cofnodion. Er enghraifft, dylai amlygu unrhyw daliadau gwallus neu dwyllodrus a wnaed ac na chawsant eu cyfrif.

13. Rydym yn hynod bryderus fod y Grwp Cyllid wedi methu diweddaru'r cysoniadau banc misol a'i fod yn cynnal llai o wiriadau o gysoniadau cyfrifon dros dro.[16] Rydym yn cydnabod fod rhai o'r rhagofalon wedi bod yn eu lle yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys cysoniadau dyddiol rhwng y symiau a dalwyd a'r cyfansymiau a nodwyd yn y llyfr cyfrifon, rhag-ddilysu sieciau a rhoi manylion sieciau i'r banc cyn eu rhyddhau.[17] Fel y cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol yn ddigon parod, fodd

---

[10] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 10
[11] C 3 a 29
[12] C29
[13] C24
[14] C30
[15] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraffau 15-17
[16] C18
[17] C 4 a 5

bynnag, ni all y rhain ddisodli'n llwyr y dull rheoli grymus o gysoni cofnodion cyfrifo'r Cynulliad â datganiadau annibynnol y banc.[18]

14. Nodwn fod y Grwp Cyllid bellach wedi diweddaru'r cysoniadau banc misol ac wedi sefydlu gweithdrefnau i sichrau y byddant, o hyn ymlaen, yn cael eu diweddaru'n amserol.[19] Cawsom hefyd ein calongi i ddysgu na ddaethpwyd o hyd i wallau yn unrhyw un o drafodion ariannol y Cynlliad hyd yma wrth ddiweddaru'r cysoniadau banc.[20]

## DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL MEWN PERTHYNAS Â CHYFRIFO A CHYLLIDEBU ADNODDAU

*Cyllidebu adnoddau*

15. O flwyddyn gyfrifo 2001-02, disgwylir i adrannau llywodraeth y DU baratoi eu Hamcangyfrif o'r Cyflenwad blynyddol eu hunain, i'w cymeradwyo gan Dy'r Cyffredin, ar sail adnoddau yn hytrach nag ar sail ariannol. Bydd paratoi'r amcangyfrifon a'r cyfrifon ar yr un sail yn cwblhau'r symud drosodd i gyfrifo a chyllidebu adnoddau, ac yn y pen draw bydd yn hwyluso cymariaethau ystyrlon rhwng yr amcangyfrifon a'r alldro.

16. Nodwn fod Cabinet y Cynlliad wedi penderfynu peidio cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau ar gyfer 2001-02 ond wedi cytuno ei gyflwyno mewn egwyddor o 2002-03.[21] Rydym yn cymeradwyo'n llawn y penderfyniad i gyflwyno cyllidebu adnoddau a chroesawn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle i'w gyflawni'n llwyddiannus erbyn y dyddiad arfaethedig.[22] Croesawn hefyd y camau a gymerir gan y Grwp Cyllid i gadw'i fys ar byls datblygiadau mewn mannau eraill yn y DU, yn enwedig yn yr Alban, lle mae cyllidebu adnoddau yn cael ei gyflwyno'n gynt.[23]

*Cyfrifon y Llywodraeth gyfan*

17. Paratodd Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 y ffordd ar gyfer cyfrif "Yr Holl Lywodraeth". Bydd y cyfrif hwn, i'w baratoi gan y Trysorlys a'i archwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, maes o law yn cynnwys cydgyfnerthiad o ganlyniadau holl adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus

[18] C9
[19] C14
[20] C 16 a 17
[21] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 19 a C38
[22] C40
[23] C36

eraill. Fel rhan o'r broses, diwygiwyd Deddf Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r Trysrolys i gyfarwyddo'r Cynulliad i baratoi cyfrif “Holl Lywodraeth Cymru" i'w archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd y cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cynulliad gyfuno canlyniadau ariannol cyrff cyhoeddus yng Nghymru ar sail ychwanegiadol yn ei gyfrifon.[24]

18. Ar gyfer 2000-01 bydd y cydgyfnerthiad hwn yn cynnwys dwy asiantaeth weithredol y Cynulliad (Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) a'r pum awdurdod iechyd. Maes o law, bydd y ffin yn cael ei hymestyn i gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, cyrff NHS eraill ac, yn y pen draw, awdurdodau lleol. Bydd cyfrif archwiliedig Holl Lywodraeth Cymru a'i wybodaeth atodol yn arf rheoli pwysig i'r Cynulliad ac fe'i hymgorfforir yng nghyfrif Holl Lywodraeth y DU, sydd i'w baratoi gan y Trysorlys. Bydd y gwaith o'i baratoi yn her sylweddol.[25]

19. Mae'r Cynulliad yn glynu at amserlen a osodwyd gan y Trysorlys ar gyfer paratoi Cyfrifon Yr Holl Lywodraeth. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym y gall hyn arwain at awdurdodau lleol yn cael eu heithrio o Gyfrifon Holl Lywodraeth Cymru tan 2005-06 ar y cynharaf.[26] Rydym o'r farn fod integreiddio cyfrifon awdurdodau lleol i gyfrifon y Cynulliad yn hanfodol bwysig er mwyn cael gorolwg llwyr o sut y defnyddir arian y Cynulliad. Rydym yn cydnabod fod yn rhaid mynd i'r afael â rhai materion cyfrifo sylweddol cyn y gellir cyfuno cyfrifon awdurdodau lleol yn llwyddiannus yng Nghyfrif Holl Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, anogwn y Grwp Cyllid i gymryd pob cam rhesymol ac ymarferol angenrheidiol i brysuro hyn.[27]

20. Anogwn y Grwp Cyllid hefyd i gadw rheolaeth effeithiol ar holl broses Cyfrif Holl Lywodraeth Cymru, er enghraifft trwy sicrhau bod cyrff y mae eu cyfrifon i'w cyfuno yn cyflwyno'r wybodaeth ddisgwyliedig i'r Cynulliad mewn modd amserol a chywir.[28]

[24] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 20.
[25] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 21.
[26] C 44 a 45
[27] C 45-47.
[28] C48.

*System gyfrifo gyfrifiadurol newydd*

21. Etifeddwyd system gyfrifon gyfrifiadurol bresennol y Cynulliad gan y Swyddfa Gymreig gynt ac fe'i cynlluniwyd yn bennaf ar gyfer paratoi cyfrifon dyraniadau ar sail ariannol. Llesteiriwyd cyflwyniad cyfrifo a chyllidebu adnoddau i ryw raddau gan y defnydd parhaus a wneir o'r system hon. Er enghraifft, rhaid coladu â llaw y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n cefnogi'r mantolenni dyledwyr a chredydwyr ddiwedd blwyddyn gan ofyn am adroddiadau mewnol gan is-adrannau llinell.[29]

22. Mae'r Grwp Cyllid yn bwriadu disodli'r system gyfrifiadurol bresennol gyda system gyfrifo gwbl integredig seiliedig ar groniadau, a ddylai sicrhau bod y strwythurau rheoli ac adrodd ariannol o dan gyfrifo a chyllidebu adnoddau yn cael eu cysylltu'n fwy uniongyrchol â'r wybodaeth ariannol ategol.[30] Bydd hyn o gymorth wrth wneud penderfyniadau ariannol yn y Cynulliad ac yn arwain at ystyried cyfrifo adnoddau fel rhywbeth perthnasol i waith rheoli dydd i ddydd yn hytrach nag fel gweithred gyfrifo ddiwedd blwyddyn. Yn wreiddiol, bwriad y Grwp Cyllid oedd cyflwyno'r system newydd ar 1 Ebrill 2001. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym ym mis Mehefin y llynedd ei fod wedi'i ohirio tan 1 Ebrill 2002 er mwyn caniatáu cyfnod cynllunio a phrofi estynedig.[31]

23. Tan i'r system newydd fod ar waith, ni ellir mwynhau manteision llawn cyfrifo a chyllidebu adnoddau. Nodwn fod bwriad i'r system gyfrifo gyfrifiadurol newydd fynd yn 'fyw' ym mis Ebrill 2002 yn dilyn cyfnod byr o brofi a rhedeg y ddwy system law yn llaw fydd yn dechrau fis Rhagfyr eleni. [32] Nodwn hefyd fod prosiect bwrdd o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Cyllid y Cynulliad yn rheoli gweithrediad y system newydd, a bod y Cynulliad wedi bod yn derbyn cyngor gan yr Asiantaeth Telathrebu Cyfrifiadurol Ganolog yn ystod y broses gaffael. [33] Pwysleisiwn fod y camau profi, rhedeg y ddwy system law yn llaw a rhoi'r system newydd ar waith yn hanfodol i lwyddiant y prosiect a bydd yn rhaid eu rheoli'n ofalus.

[29] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 22.
[30] Adroddiad ACC *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyfrifon 1999-2000* paragraff 23.
[31] Adroddiad Pwyllgor Archwilio *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99* paragraff 11.
[32] C51.
[33] C 51 a 52.

24. Mae'r Grwp Cyllid yn hyderus y bydd y system newydd yn cwrdd â'r holl ofynion cyfrifo disgwyliedig sydd wedi'u gosod ar y Cynulliad. Yn arbennig, mae'r meddalwedd a ddewiswyd yn hyblyg a gellir ei deilwra a'i ffurfweddu i anghenion y Cynulliad.[34] Rydym o'r farn fod y system newydd yn gwbl hanfodol i weithrediadau'r Cynulliad ac felly rydym yn edrych tua'r Grwp Cyllid i sicrhau ei fod yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd na fydd y system gyfrifo bresennol yn cael ei dadgomisiynu tan fod y system newydd yn gweithio fel y'i bwriadwyd.[35]

## MATERION YN CODI O WAITH ARCHWILIO ARIANNOL 1999-2000 YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Cyfrifon hwyr ac amodol*

25. Ni chyflwynwyd cyfrifon Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd NHS Cymru a dwy set o gyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn y dyddiad cau statudol, sef 30 Tachwedd.[36] At hyn, cafodd y ddwy set o gyfrifon a baratowyd gan y Comisiwn Coedwigaeth (a chyfrifon cyfatebol Lloegr a'r Alban) farn archwilio amodol o ganlyniad i fethiant y Comisiwn i gysoni symiau a dderbyniwyd, fel a nodwyd yn yr amrywiol gyfrifon cenedlaethol, â’r symiau a dderbyniwyd gan Senedd San Steffan a Senedd yr Alban. Roedd y diffyg balans o oddeutu £2 filiwn ac mae'n debyg ei fod yn sgil cofnodi taliadau mewnol yn anghywir.[37] Ni chafodd y Comisiwn ei gyllidebu gan y Cynulliad yn 1999-2000, gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi ei throsglwyddo i'r Cynulliad na'r cyllid i gyllideb Cymru.

26. Rydym yn disgwyl i'r Cynulliad ddefnyddio pa bynnag ddylanwad y gall i sicrhau na fydd achosion pellach o'r anawsterau a gafwyd gyda'r cyfrifon a baratowyd gan y cyrff uchod yn ystod 1999-2000. Nodwn mai bwriad Llywodraeth y DU a'r Cynulliad yw bod y Cynulliad yn gyfrifol am gyllidebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru, er na wnaethpwyd penderfyniad ynglyn â phryd fydd hyn yn digwydd. Rydym yn croesawu bwriad yr Ysgrifennydd Parhaol i sefydlu cytundeb gyda'r

---

[34] C54.
[35] C53.
[36] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraff 2.9 a C 62 a 63.
[37] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraffau 2.15 a 2.16 a C64.

Comisiwn Coedwigaeth yn gosod allan yn glir y sicrwydd y mae'r Cynulliad yn ei ddisgwyl ynglyn â defnydd yr arian sy'n cael ei wario ar ei ran.[38]

*Cydymffurfio â rheolau Ewropeaidd ar Gymorth Gwladol*

27. Bydd cydymffurfio â rheolau Ewropeaidd ar Gymorth Gwladol yn dod yn fater fwyfwy pwysig ac uchel ei broffil yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf o ganlyniad i gyllid Amcan 1. Nodwn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gan y Cynulliad drefniadau cydymffurfio cynhwysfawr yn eu lle yn seiliedig ar ddefnyddio staff â sgiliau i ystyried ceisiadau am grantiau a allai gael eu heffeithio gan reolau Cymorth Gwladol. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y Cynulliad berthynas dda yn y maes hwn gyda'r Adran Ddiwydiant a Masnach a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd trwy gyfrwng Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig. Roeddem hefyd yn falch o glywed nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol parthed diffyg cydymffurfio wedi'u hadrodd hyd yma.[39]

28. Nodwn hefyd y byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo unrhyw grantiau o werth arwyddocaol a dalwyd gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a bod y Memoranda Ariannol a'r cytundebau grant sydd gan y Cynulliad â'r cyrff a noddir hefyd yn disgwyl i'r cyrff hynny roi ystyriaeth i'r rheolau Cymorth Gwladol.[40] Gallai peidio cydymffurfio â'r rheolau Cymorth Gwladol arwain at gosbau difrifol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac embaras difrifol i'r Cynulliad. Rydym felly yn ystyried ei bod yn hynod bwysig fod uwch reolwyr y Cynulliad yn parhau'n wyliadwrus yn y maes hwn gan sicrhau bod rheolau Ewropeaidd ar Gymorth Gwladol yn cael eu cymhwyso'n llawn ac yn gyson. Mae hyn yn hynod bwysig pan fo'n rhaid i'r Cynulliad ymateb yn gyflym i ddatblygiadau megis y sefyllfa bresennol lle mae'r Cynulliad yn rhoi cymorth i gwmnïau yn y sector twristiaeth sydd dan fygythiad gan effeithiau epidemig Clwy'r Traed a'r Genau.[41]

*Diffyg cydymffurfio â'u Memoranda Ariannol gan Gyrff a noddir gan y Cynulliad*

29. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at ddau achos lle y dylai cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fod wedi hysbysu'r Cynulliad cyn gwario. Roedd y rhain yn ymwneud â dyfarnu contractau cyfyngedig. Yn un achos, gofynnwyd am ôl-ganiatâd ac yn yr achos arall, ceisiodd y corff gael

[38] C 65 a 66.
[39] C 67.
[40] C 67.
[41] C 70.

eglurhad o'r gweithdrefnau perthnasol.[42] Nodwn nad oedd yr achosion hyn yn dynodi methiant systemig ehangach a chefnogwn y gweithdrefnau sydd yn eu lle i ddelio ag unrhyw achosion yn y dyfodol o ddiffyg cydymffurfio â'u Memoranda Ariannol gan gyrff a noddir gan y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys derbyn ac adolgyu adroddiad archwilio mewnol ac allanol, a monitro mwy cyffredinol a wneir gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yr Ysgrifennydd Parhaol, sy'n ystyried a yw unrhyw fethiannau unigol i gydymffurfio yn dynodi unrhyw faterion mwy cyffredinol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.[43]

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YN Y CYRFF A ARCHWILIR GAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Datganiadau o Reolaeth Fewnol*

30. Mae Adroddiad Cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r mesurau sydd ar y gweill o fewn y sector cyhoeddus mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Turnbull ar gyfer 1999. O 2001-02 bydd yn rhaid i'r Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo, fel cyrff sector cyhoeddus eraill y DU, gynnwys Datganiad o Reolaeth Fewnol o fewn eu cyfrifon blynyddol fydd yn disodli'r Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol bresennol. Gall y datganiadau hyn fod yn rhai dros dro os oes angen gwaith pellach i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer monitro effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol ond bydd disgwyl datganiadau llawn o 2003-04 fan bellaf.[44]

31. Daeth Pwyllgor Turnbull i'r casgliad fod system reolaeth fewnol gadarn yn dibynnu ar werthuso trylwyr a rheolaidd o natur a graddau'r holl risgiau y mae corff yn agored iddynt. Diben y system rheolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu'r cyfryw risgiau. Mae'r cyfryw risgiau yn cynnwys risgiau cyfreithiol, corfforol, iechyd a diogelwch, a gweithrediadol yn ogystal â risgiau ariannol.[45]

32. Yr uwch reolwyr sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risgiau allweddol. Swyddogion cyfrifo cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Fe'u cynghorir i'r perwyl hwn

---

[42] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraff 3.17 a C 71.
[43] C 72-74.
[44] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraffau 5.7 – 5.11.
[45] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraff 5.8.

gan waith archwilwyr mewnol (a fydd yn adrodd ar faterion o'r fath yn flynyddol) a'u pwyllgorau archwilio (yn achos y Cynulliad, Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yr Ysgrifennydd Parhaol).

33. Ar hyn o bryd, mae Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad yn disgwyl adroddiadau blynyddol gan benaethiaid yr is-adrannau fel y gall adrodd ar effeithiolrwydd rheolaeth ariannol fewnol fel rhan o'r cyfrifon blynyddol. Bydd yn rhaid lledu cwmpas yr ymarfer hwn i'r Datganiad o Reolaeth Fewnol (i gynnwys yr holl ddulliau rheoli mewnol nid yn unig y rhai o natur ariannol) ond credwn ei fod yn rhoi cychwyn cadarn. Rydym wedi ein calonogi i glywed nad oedd yr ymarfer a wnaed ym 1999-2000 yn dangos fod unrhyw faterion perthnasol yn effeithio ar ddulliau rheoli ariannol y Cynulliad. Rydym hefyd yn falch fod crynodeb o'r casgliadau wedi eu hadrodd yn ôl i holl uwch reolwyr y Cynulliad gyda chais eu bod yn talu sylw arbennig i'r meysydd pryder hynny a nodwyd. Nodwn y bydd Archwiliad Mewnol yn mynd i'r afael â'r materion rheoli a nodwyd gan yr ymarfer.[46]

34. Rydym yn cefnogi asesiad yr Ysgrifennydd Parhaol o'r gwerth fydd yn deillio o'r pwyslais cynyddol ar reoli risg yn sgil gofynion Pwyllgor Turnbull, er enghraifft, rheoli risgiau i'r Cynulliad parthed iechyd anifeiliaid, iechyd cyhoeddus, argyfyngau sifil ac yn benodol, prosiectau unigol megis adeilad newydd y Cynulliad.[47] Cytunwn fod yn rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod ei adeilad newydd nodedig yn cael ei gwblhau o fewn yr amser a'r costau y cytunwyd arnynt. Rydym yn hyderus nad oes lle i ni amau'r sicrwydd a gawsom fod y trefniadau a'r sgiliau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli'n effeithiol ac i'r safon angenrheidiol.[48]

35. Nodwn fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn bwriadu llunio cofrestr risg erbyn diwedd y flwyddyn a fydd yn gosod allan y prif risiau strategol a'r risigau eraill y mae'n rhaid i'r Cynulliad eu rheoli. Dywedwyd wrthym hefyd ei fod yn bwriadu gosod systemau adrodd clir ar waith i sicrhau y gellir monitro'n iawn y ffordd y rheolir y risgiau hyn. Croesawn ei fwriad i gael trefniadau rheoli risg y bydd yn hyderus ynddynt yn eu lle erbyn 2002-03.[49]

---

[46] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraffau 5.13 a 5.14 a C80.
[47] C 79.
[48] C 92.
[49] C 78.

36. Mae argymhellion Pwyllgor Turnbull ar gyfer rheoli risg a pharatoi Datganiad o Reolaeth Fewnol blynyddol yn gyflwyniad newydd, pwysig fydd yn gwella ansawdd gweinyddiaeth gyhoeddus, nid yn unig o fewn y Cynulliad ond hefyd yn ehangach. Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i weithredu'r argymhellion fel bod gan y Cynulliad, fel y prif gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ei hun y gall eraill eu hystyried fel model o arfer gorau.

*37.* Croesawn y camau sy'n cael eu cymryd gan y Cynulliad, yn cynnwys cynnal cyfarfodydd gydag uwch weithredwyr, i sicrhau bod modd i gyrff a noddir ganddo gydymffurfio ag amserlen y Trysorlys ar gyfer cyflwyno Datganiad o Reolaeth Fewnol a nodi unrhyw anawsterau arbennig. Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig fod pob corff a noddir yn enwebu rheolwr risg i weithredu fel pwynt cyswllt gyda'r Cynulliad.[50] Rydym o'r farn ei bod yn bwysig fod uwch reolwyr y Cynulliad yn parhau i gynghori'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a dangos diddordeb agos yn eu gwaith yn y maes hwn.

*Cynlluniau Rheoli Asedion*

38. Mae cynllun strategol y Cynulliad ar gyfer Cymru, a gynhyrchwyd ym Mai 2000, yn cynnwys ymrwymiad y dylai cyrff cyhoeddus fod â chynlluniau rheoli asedion yn eu lle erbyn Ebrill 2002.[51] Nodwn y camau sy'n cael eu cymryd gan y Cynulliad i adolygu'r sefyllfa rheoli asedion ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn archwilio a yw cyrff yn gwybod pa asedion sydd ganddynt, a oes ganddynt gynlluniau ar gyfer eu defnydd cywir ac a yw gwybodaeth gysylltiedig yn cael ei chadw a'i bwydo i'r broses gyllidebol. Mae canlyniadau'r adolygiad i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol maes o law.[52] Cytunwn fod rheoli asedion yn effeithiol yn allweddol i sicrhau gwerth da am arian. Rydym felly yn disgwyl i'r Cynulliad gynnal y momentwm yn y maes hwn er mwyn sicrhau y gellir cwrdd â tharged Ebrill 2002.

*Dod â Phedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter Cymru i ben*

39. Ar 1 Ebrill 2001, aeth y cyfrifoldeb am hyrwyddo, sicrhau a chyllidebu addysg a hyfforddiant ôl-ysgol ledled Cymru i Gyngor Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa).

---

[50] C 83.
[51] Adroddiad ACC *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* paragraff 7.3.
[52] C 95.

Mae ELWa yn cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Cyngor newydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae creu'r Cyngor newydd dros Addysg a Hyfforddiant wedi arwain at ddiddymu Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, a maes o law, bydd hefyd yn arwain at ddod â phedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter Cymru (TECs) i ben. Mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau'r TECs wedi eu trosglwyddo i'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant newydd er bod rhai wedi eu trosglwyddo i gyrff eraill megis Awdurdod Datblygu Cymru. Yn y cyfamser, a thra bod y trefniadau terfynol yn cael eu gwneud ar gyfer y materion sy'n weddill, mae'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter bellach yn is-gwmniau sy'n eiddo i'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant. Nid yw'r union ddyddiad ar gyfer eu dirwyn i ben wedi ei osod eto.[53]

40. Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad, gan weithio'n agos gydag ELWa, sicrhau y nodir ac y delir yn gywir ag asedion a rhwymedigaethau'r TECs a'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill i'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant ac i fannau eraill, er mwyn sicrhau bod gan ELWa y systemau sy'n angenrheidiol yn eu lle i weithredu'n effeithiol. Rydym hefyd yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad ac ELWa sicrhau bod y TECs yn cael eu dirwyn i ben mewn modd priodol a threfnus a bod unrhyw asedion a rhwymedigaethau sy'n weddill yn cael eu gwaredu'n briodol.

## PRIF GASGLIADAU AC ARGYMHELLION

41. Ceir crynodeb o'n prif gasgliadau a'n hargymhellion isod.

***Ar gyfrif adnoddau 1999-2000 y Cynulliad***

(i) Rydym o'r farn fod y farn archwilio ddiamod ar gyfrifon adnoddau 1999-2000 yn gryn gamp gan staff y Cynulliad a oedd wedi gorfod ymdopi â chyflwyno'r system cyfrifo adnoddau law yn llaw â'r newid drosodd i ddatganoli. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r Grwp Cyllid fod wedi rhagweld a rheoli rhai o'r problemau a wynebwyd ganddo yn well wrth baratoi cyfrifon 1999-2000.

(ii) Rydym felly'n croesawu'r sicrwydd a gawsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod trefniadau bellach yn eu lle, yn cynnwys darparu digon o staff cymwys a phrofiadol, fel bod modd cynhyrchu cyfrifon 2000-01 i safon dda ac yn unol â'r amserlen archwilio y cytunwyd arni.

[53] C 99.

(i) Rydym yn hynod bryderus fod y Grwp Cyllid wedi methu diweddaru'r cysoniadau banc misol a'i fod yn cynnal llai o wiriadau o gysoniadau cyfrifon dros dro. Nodwn fod y Grwp Cyllid bellach wedi diweddaru'r cysoniadau banc misol ac wedi sefydlu gweithdrefnau i sichrau y byddant, o hyn ymlaen, yn cael eu diweddaru'n amserol.

***Ar ddatblygiadau i'r dyfodol o ran cyfrifo a chyllidebu***

(iv) Nodwn fod Cabinet y Cynlliad wedi penderfynu peidio cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau ar gyfer 2001-02 ond wedi cytuno ei gyflwyno mewn egwyddor o 2002-03. Rydym yn cymeradwyo'n llawn y penderfyniad i gyflwyno cyllidebu adnoddau a chroesawn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle i'w gyflawni'n llwyddiannus erbyn y dyddiad arfaethedig.

(i) Rydym o'r farn fod integreiddio cyfrifon awdurdodau lleol i gyfrifon y Cynulliad yn hanfodol bwysig er mwyn cael gorolwg llwyr o sut y defnyddir arian y Cynulliad. Rydym yn cydnabod fod yn rhaid mynd i'r afael â rhai materion cyfrifo sylweddol cyn y gellir cyfuno cyfrifon awdurdodau lleol yn llwyddiannus yng Nghyfrif Holl Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, anogwn y Grwp Cyllid i gymryd pob cam rhesymol ac ymarferol angenrheidiol i brysuro hyn.

(vi) Rydym o'r farn fod y system newydd yn gwbl hanfodol i weithrediadau'r Cynulliad ac felly rydym yn edrych tua'r Grwp Cyllid i sicrhau ei fod yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd na fydd y system gyfrifo bresennol yn cael ei dadgomisiynu tan fod y system newydd yn gweithio fel y'i bwriadwyd.

***Ar faterion yn codi o waith archwilio ariannol 1999-2000 yr Archwilydd Cyffredinol***

(vii) Rydym yn disgwyl i'r Cynulliad ddefnyddio pa bynnag ddylanwad y gall i sicrhau na fydd yr anawsterau a gafwyd gyda chyfrifon Ombwdsmna Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd NHS Cymru a'r ddwy set o Gyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystod 1999-2000 yn cael eu hailadrodd.

(viii) Nodwn sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gan y Cynulliad drefniadau cydymffurfio cynhwysfawr yn eu lle yn seiliedig ar ddefnyddio staff â sgiliau i

ystyried ceisiadau am grantiau a allai gael eu heffeithio gan reolau Cymorth Gwladol. Rhaid i uwch reolwyr y Cynulliad barhau'n wyliadwrus yn y maes hwn gan y gallai peidio cydymffurfio â'r rheolau Cymorth Gwladol arwain at gosbau difrifol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac embaras difrifol i'r Cynulliad.

***Ar lywodraethu corfforaethol yn y cyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol***

(ix) Cytunwn gyda'r Ysgrifennydd Parhaol fod yn rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod ei adeilad newydd nodedig yn cael ei gwblhau o fewn yr amser a'r costau y cytunwyd arnynt. Rydym yn hyderus nad oes lle i ni amau'r sicrwydd a gawsom fod y trefniadau a'r sgiliau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli'n effeithiol ac i'r safon angenrheidiol.

(x) Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i weithredu argymhellion Pwyllgor Turnbull fel bod gan y Cynulliad, fel y prif gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ei hun y gall eraill eu hystyried fel model o arfer gorau. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig fod uwch reolwyr y Cynulliad yn parhau i gynghori'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a dangos diddordeb agos yn eu gwaith yn y maes hwn.

(xi) Cytunwn fod rheoli asedion yn effeithiol yn allweddol i sicrhau gwerth da am arian. Rydym felly yn disgwyl i'r Cynulliad gynnal y momentwm yn y maes hwn er mwyn cwrdd â tharged Ebrill 2002 ar gyfer sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus gynlluniau rheoli asedion yn eu lle.

(xii) Rydym yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad, gan weithio'n agos gydag ELWa, sicrhau y nodir ac y delir yn gywir ag asedion a rhwymedigaethau'r TECs a'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill i'r Cyngor dros Addysg a Hyfforddiant ac i fannau eraill, er mwyn sicrhau bod gan ELWa y systemau sy'n angenrheidiol yn eu lle i weithredu'n effeithiol. Rydym hefyd yn disgwyl i uwch reolwyr y Cynulliad ac ELWa sicrhau bod y TECs yn cael eu dirwyn i ben mewn modd priodol a threfnus a bod unrhyw asedion a rhwymedigaethau sy'n weddill yn cael eu gwaredu'n briodol

## CRYNODEB O'R CASGLIADAU

42. Ar y cyfan, ac o ystyried y newidiadau strwythurol a'r datblygiadau cyfrifo sylweddol diweddar, rydym yn fodlon fod amgylchedd rheoli ariannol y Cynulliad

a'i gyrff cyhoeddus perthynol yn dda. Yn arbennig, roeddem yn falch iawn i nodi barn ddiamod yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrif adnoddau cyntaf y Cynulliad.

43. Y Cynulliad yw'r prif gorff sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n rhaid iddo gael ei weld yn gosod esiampl i eraill yn y modd y mae'n rheoli ei faterion ariannol a'i lywodraethu corfforaethol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r anawsterau a brofwyd wrth baratoi cyfrifon 1999-2000 a'r methiant i weithredu gweithdrefnau a dulliau rheoli ariannol sylfaenol arbennig am gyfnod estynedig yn dderbyniol ac ni ddylid caniatáu i hyn ddigwydd eto.

**ATODIAD A**

**Ceir cofnod dwythieithog o drafnodion y pwllgorau yn fersiwn Saesneg yr adroddiad (Atodiad A).**

**ANNEX B**

**THE AUDIT COMMITTEE**

The National Assembly's Audit Committee ensures that proper and thorough scrutiny is given to the Assembly's expenditure. In broad terms, its role is to examine the reports on the accounts of the Assembly and other public bodies prepared by the Auditor General for Wales; and to consider reports by the Auditor General for Wales on examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Assembly has used its resources in discharging its functions. The responsibilities of the Audit Committee are set out in detail in Standing Order 12.

The membership of the Committee as appointed on 9 November 2000 is:

Janet Davies (Plaid Cymru) - Chair
Alan Cairns (Conservative)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Alison Halford (Labour)
Ann Jones (Labour)
Peter Law (Labour)
Lynne Neagle (Labour)
Dafydd Wigley (Plaid Cymru)
Kirsty Williams (Liberal Democrat)

Further information about the Committee can be obtained from:

Russell Keith
Clerk to the Audit Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA
Tel: 02920 898155
Email: Audit.comm@wales.gsi.gov.uk